Canolfan Arbenigedd Rhanbarthol ar ADCDF yng Nghymru:

Papur Briffio CAR Cymru 3

Ar ôl gwyliau hir yr haf, mae'n bleser gennym eich diweddaru ynglŷn â chynnydd 'Ymgeisydd-CAR Cymru'.

Gall darllenwyr sy'n dymuno dysgu mwy ynglŷn â menter CAR a'i pherthynas â Degawd o Addysg Datblygu Cynaliadwy UNESCO, neu sy'n dymuno cael hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â stori CAR Cymru hyd yn hyn edrych ar y Papurau Briffio blaenorol, yn Gymraeg neu yn Saesneg, drwy'r cysylltiadau a ddarperir ar dudalen 2, isod.

Sut y mae ein cais am gydnabyddiaeth ffurfiol yn arwydd bod 'CAR Cymru' yn gwneud cynnydd?

Yn syml: popeth yn iawn hyd yma!

Ar hyn o bryd rydym yn parhau i fod yn 'Ymgeisydd-CAR Cymru'. Cyflwynwyd ein cais ym mis Mehefin a derbynion ni sylwadau ffafriol iawn oddi wrth yr archwilwyr gwreiddiol drwy gyfrwng y Ganolfan Gwasanaeth CAR Byd-eang a chan ein hadolygydd cymheiriaid annibynnol yn CAR Rhine-Meuse.

Ymatebon i'r ceisiadau am wybodaeth mewn dau faes o gais CAR Cymru ac fe'i hailgyflwynwyd ar gyfer dyddiad cau'r 10fed o Awst. Rydym nawr yn aros am benderfyniad Pwyllgor Cymheiriaid Ubuntu ar gyfer CAR ar ein cais. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd yn yr hydref, er nad ydyn yn gwybod yr union ddyddiad eto. Heb os, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y byddwn yn clywed unrhyw beth!

Beth sydd ynddi i mi: l fy ngwaith ac i'm sefydliad?

Mae Gweledigaeth CAR Cymru[1] yn adlewyrchu ein hymdrech gyffredin i gefnogi datblygiad arbenigedd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) ansawdd uchel yng Nghymru. Wrth i'r CAR ddod yn sefydlog ac wrth i'w gweithredoedd aeddfedu, mae ei buddion i randdeiliaid yn debygol o gynnwys:

- Mynediad i 'ffenestr siop' arbenigol ar gyfer newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag ADCDF a ffynonellau cymorth
- Mynediad haws ac ehangach i arbenigedd ADCDF yng Nghymru a'r DU
- Mynediad haws i weithwyr proffesiynol rhyngwladol ADCDF a'u rhwydweithiau (ar hyn o bryd mae mwy na 60 CAR ar draws y byd)
- Cymorth gydag adnabod partneriaid profiadol i'ch helpu â'ch prosiect/gweithgaredd neu ymchwil ADCDF
- Gwybodaeth ehangach o ffynonellau ariannu posib ar gyfer eich gwaith ADCDF
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil yn berthnasol i'ch gwaith ADCDF
- Cyfleoedd i gynyddu gweledegdd eich arbenigedd a'ch gweithgareddau ADCDF eich hun
- Ymwybyddiaeth o amrediad ehangach o gyfleoedd i ymgysylltu ag ADCDF
- Cyfle i osod bathodyn 'CAR Cymru' ar eich gwaith ADCDF, fel cydnabyddiaeth o'i ansawdd

[1] Mae CAR Cymru yn hwyluso cydweithio i ymchwilio, datblygu a hybu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, fel bod y dysgu hwn yn ganolog i ddatblygiad Cymru gynaliadwy.

Canolfan Arbenigedd Rhanbarthol ar ADCDF yng Nghymru:

Papur Briffio CAR Cymru 3

Beth sydd wedi digwydd ers y Papur Briffio diwethaf?

Mae'n teimlo fel amser maith ers y Papur Briffio diwethaf (16 Mehefin 2009), a nawr bod tymor y gwyliau y tu ôl i ni, mae'n bleser gennym ddod â'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â pheth o'r gweithgareddau CAR mwy ymarferol eu natur sydd wedi bod yn digwydd.

Yn gyffredinol, tra eich bod chi wedi bod yn parhau i fod yn brysur â gwaith go iawn ADCDF, mae'r Grŵp Llywio a'r Ysgrifenyddiaeth wedi bod wrthi'n ymafael â rhai o agweddau mwy cyffredin yn ymwneud â sefydlu CAR ar gyfer Cymru. Fel yr adroddwyd o'r blaen, gwnaeth paratoi'r cyflwyniad ein cynnwys â chyfleu'r negeseuon allweddol o ymgynghoriadau CAR 2008 a'u gosod yn nyluniad CAR Cymru. Ers gorffen ein cyflwyniad terfynol, rydym wedi bod yn ystyried ymhellach sut y bydd CAR Cymru yn gweithredu a beth yn union fydd ei angen i gefnogi datblygu arbenigedd a rhagoriaeth ADCDF yng Nghymru. Nid yw hyn yn dasg syml, yn enwedig gan nad yw cydnabyddiaeth CAR ffurfiol yn golygu unrhyw ariannu ychwanegol! Yn hyn o beth rhaid i ni ystyried yn ddwys yn union beth y bydd cydnabyddiaeth a sefydlu CAR ffurfiol yn ei alluogi. Sut y gallwn drosi'r gydnabyddiaeth honno i werth ychwanegol ar gyfer ein hymdrechion ADCDF cyfrannol yng Nghymru? A sut, mewn ymarfer, y gallwn sicrhau bod CAR Cymru yn gweithio'n glir tuag at ei ddelwedd ac nad yw'n ymwneud â gweithgareddau sy'n dyblygu gwaith ADCDF yng Nghymru sy'n bodoli eisoes? Yn fyr, rydym wedi bod yn ystyried sut y gallwn droi'r dyheadau y cytunwyd arnynt ar gyfer CAR Cymru yn ymarfer.

Dyma grynodeb byr o ganlyniadau ymarferol yr ystyriaethau hynny hyd yn hyn.

Cyfathrebu: wedi'i gydnabod gan rhanddeiliaid fel gofyniad allweddol ar gyfer gwella trefniadau, dosbarthu adnoddau a datblygu arbenigedd ADCDF yng Nghymru, ac fel ffocws allweddol ar gyfer y CAR.

- Mae gwefan ADC&DF wedi'i hymestyn i gynnwys tudalen CAR (fersiwn Gymraeg yn http://www.esd-wales.org.uk/cymraeg/RCE_development/default.htm; Fersiwn Saesneg yn http://www.esd-wales.org.uk/english/RCE_development/default.htm). Mae papurau briffio bellach yn cael eu cyfieithu ar ein cyfer a'u postio yno diolch i Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru. Unwaith y caiff CAR Cymru ei chydnabod yn ffurfiol, bydd y 'siop ffenest CAR' hwn yn datblygu ymhellach.

- Yn ystod y broses gyfredol barhaol o gynllunio a sefydlu systemau cyfathrebu CAR Cymru pwrpasol a threfnus, bydd Ysgrifenyddiaeth CAR Cymru, a leolir ym Mhrifysgol Abertawe yn cylchredeg gwybodaeth, ar gais, ymhlith y rhanddeiliaid ADCDF ar ein rhestrau postio. Edrychwch ar yr adran 'Sut y gallaf gymryd rhan?' isod, am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Prosiectau a gweithgareddau: yn ogystal â'r cais a'r gwaith sefydlu, rydyn ni wedi bod yn ofalus i sicrhau nad ydym yn colli golwg ar bwrpas y CAR: cefnogi a datblygu arbenigedd ADCDF yng Nghymru.

Canolfan Arbenigedd Rhanbarthol ar ADCDF yng Nghymru:

Papur Briffio CAR Cymru 3

- Fe'ch gwahoddir i gwblhau ffurflen ar gyfer Prosiect/Gweithgaredd ar unrhyw adeg (fel sydd wedi'i hatodi i'r Papur Briffio hwn, â chanllawiau ar gyfer ei chwblhau) a'i dychwelyd i'r Ysgrifenyddiaeth, er mwyn rhoi gwybod i ni o brosiect neu weithgaredd ADCDF yr ydych yn ymwneud ag ef, neu un y byddwch yn hoffi ei gynnig . Yn dilyn cydnabyddiaeth ffurfiol o CAR Cymru, byddwn yn rhoi gwybod i randdeiliaid ar ffyrdd y gall y CAR gynnig cymorth i brosiectau a gweithgareddau y derbynnir ffurflenni ar eu cyfer. Sylwer hyd nes y bydd CAR Cymru yn derbyn cydnabyddiaeth ffurfiol, ni chymerir unrhyw gamau gweithredu pellach yn ymwneud â'r prosiectau a amlinellir; caiff eich ffurflen ei hanfon ymlaen at y Pwyllgor Llywio er gwybodaeth iddyn nhw yn unig. Mae'r gwahoddiad hwn yn agored i bawb ac nid oes terfyn amser arno.

- Mewn ymateb i sylwadau parhaus gan randdeiliaid, mae dau amlinelliad ar gyfer prosiectau sefydlu CAR wedi'u cyflwyno i APADGOS ar gyfer ariannu. Bydd y prosiectau yn helpu i sefydlu'r sylfeini priodol ar gyfer CAR Cymru:
    a) Mynd i'r afael â chyfathrebu ADCDF: Prosiect y Rhwydwaith Datblygu 'EDEN'- ADCDF - i ymchwilio â rhanddeiliaid ymhellach sut i gyflawni'r ffocws, y drefniadaeth, yr ansawdd a'r esmwythder cyfathrebu sydd eu hangen arnom i gefnogi datblygiad ADCDF yng Nghymru;
    b) Mynd i'r afael ag ansawdd ADCDF: Prosiect Ymchwil Mesur Ansawdd 'ESQUIRE' – ADCDF – i ymchwilio ynghyd â rhanddeiliaid yr hyn a olygir yng Nghymru gan 'ADCDF ansawdd da', gan ein helpu i adnabod rhai mesuriadau o ansawdd ADCDF a rannir ac y gellir eu gweithredu'n hawdd.

  Caiff cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ar gyfer rhanddeiliaid ADCDF eu trefnu fel rhan o'r prosiectau uchod, yn amodol ar geisiadau ariannu llwyddiannus. Rydym yn disgwyl ateb gan APADGOS.

Ariannu: Yn ogystal â chyflwyno'r ddau brosiect sefydlu i APADGOS a grybwyllir uchod,

- Mae CCAUC yn edrych am gyllid i sicrhau Ysgrifenyddiaeth CAR Cymru weithredol llawn dros y 3 blynedd 2010-2013, fel rhan o gylchred cynllunio strategol teirblwydd APADGOS. Disgwylir penderfyniad cyn diwedd 2009.
- Bydd y Grŵp Llywio yn creu rhestr o ffynonellau ariannu posibl ar gyfer gweithgareddau ADCDF yng Nghymru, a fydd ar gael i randdeiliaid unwaith y caiff ei gorffen. Prifysgol Cymru, Casnewydd sy'n arwain y gwaith hwn.

Mae'r rhain yn cynrychioli rhai mannau cychwyn ymarferol; trefniadau a fydd yn datblygu unwaith y mae'r CAR wedi'i sefydlu ac yn dechrau gweithredu yn llawn.

Sut y gallaf gymryd rhan ar yr adeg hon?

- Rhowch eich manylion cyswllt i ni os nad ydych ar restr bostio CAR Cymru eto ac y byddwch yn hoffi bod. Rhowch wybod pa sector yr ydych yn gweithio ynddo (Addysg Bellach, Addysg Uwch, Ieuenctid, Dysgu Seiliedig ar Waith ayyb).
- Cwblhewch ffurflen Prosiect/Gweithgaredd i roi gwybod i ni am agwedd o'ch gwaith ADCDF.
- Anfonwch unrhyw wybodaeth ymlaen atom ynglŷn â ffynonellau ariannu yr ydych wedi'u defnyddio, neu yr ydych yn gwybod amdanynt, ar gyfer gwaith ADCDF. Byddwn yn anfon y manylion ymlaen atoch i gynnwys y wybodaeth ar y rhestr o ffynonellau ariannu ADCDF sydd ar waith ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd ar hyn o bryd.

Canolfan Arbenigedd Rhanbarthol ar ADCDF yng Nghymru:

Papur Briffio CAR Cymru 3

- Gallwch gylchredeg gwybodaeth ADCDF bwysig at gynulleidfa ehangach drwy'r Ysgrifenyddiaeth. Sylwer y canllawiau canlynol os gwelwch yn dda, sydd wedi'u llunio i hwyluso gwasanaeth o'r fath o flaen Ysgrifenyddiaeth sy'n gweithredu'n llawn. Rydym yn amau, maes o law, y bydd modd postio gwybodaeth a gofynion o'r fath mewn 'ffenestr siop' CAR Cymru, er bod hyn i'w gadarnhau yn dilyn ymgynghoriadau â phrosiectau EDEN.

a) Defnyddiwch "gwybodaeth CAR i'w anfon ymlaen" fel eich pennawd.
b) RHAID i'r wybodaeth yr ydych yn ei anfon fod yn berthnasol i *Education for SDGC*, neu ni chaiff ei hystyried yn berthnasol i'r CAR ac ni chaiff ei hanfon ymlaen.
c) RHAID bod eich neges e-bost ac unrhyw atodiadau yn gyflawn, yn fanwl ac yn hunanesboniadol.
d) Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ychwanegu nodyn esbonio generig at eich neges ("Anfonwyd yr e-bost isod, ac unrhyw atodiadau, ymlaen atoch chi fel rhanddeililad ADCDF, ar gais...") ac yn ei hanfon ymlaen; does gennym naill ai'r awdurdod i gymedroli na'r adnoddau i olygu'r wybodaeth yr ydych yn ei hanfon.
e) Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn anfon unrhyw atebion neu geisiadau am wybodaeth/eglurhad pellach ymlaen atoch; ni fyddwn yn cymryd rhan mewn trafodaethau nac yn darparu gwybodaeth bellach.
f) Chi sy'n gyfrifol am y wybodaeth yr ydych yn ei hanfon a chewch eich ystyried fel yr 'awdur'. Yn hyn o beth, os nad yw'r ddarpariaeth gennych, neu os nad ydych yn gallu, neu os rydych yn gwrthod delio ag unrhyw ohebiaeth sy'n codi, gwnewch yn siŵr ei fod yn glir yn eich e-bost eglurhaol at bwy y dylid cyfeirio unrhyw ohebiaeth o'r fath.
g) Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

- Gallwch gymryd rhan mewn un o'r ymgynghoriadau i randdeiliaid y cewch wahoddiad iddo, os byddwn yn llwyddo i sicrhau ariannu gan APADGOS ar gyfer y prosiectau EDEN ac ESQUIRE.
- Cysylltwch â ni unrhyw bryd â'ch sylwadau, eich cwestiynau neu eich awgrymiadau:

carcymru@abertawe.ac.uk
Ffôn: 01792 602655 (Jan Morgan); 01792 602654 (Yvonne Jones); 01792 602029 (Jane Claricoates)

Gyda diolch a chofion gorau gan

Ysgrifenyddiaeth Ysgrifennydd-CAR Cymru, Prifysgol Abertawe

Ar ran y Grŵp Llywio interim